

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Medi 11, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Simon Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Paul Williams, Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 10, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 10, 2018

Eitem 10.a. Cafodd Peredur Jenkins ac Elfed ap Gomer gyfarfod gyda Mr Colin Jones, Swyddog o Cyngor Gwynedd, ar Awst 2, 2018 ynglŷn â'r giât.

Eitem 5.a.b. Wedi gwneud ymholiadau gyda chynghorau cymuned leol, derbyniwyd copi o contract clercc oddi wrth Cyngor Cymuned Llanuwchllyn. Amgáu oedd copi o'r contract am sylw.

Eitem 7.a. Llythyr (22/8/2018) yn rhoi fwy o wybodaeth am y cyfarfod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda chynghorau cymuned a thref dydd Iau, Hydref 4, 2018 am 6.30yh yn Plas Tan y Bwlch. Yr agenda fydd: diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun Partneriaeth y Parc, prosiect LIFE, ymateb i Geisiadau Cynllunio. Penderfynodd Geraint Rowlands fod yn bresennol yn y cyfarfod. Maent angen gwybod pwy fydd yn bresennol cyn Medi 25, 2018.

Penderfynwyd i Geraint Rowlands fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Eitem 8.d. Llythyr (24/8/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chynigion terfynol bydd yn cael eu trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Anfonwyd y llythyr ymlaen i Elfed ap Gomer. Roedd rhaid ychwanegu £10 at y ffi cofrestru.

Rhodddwyd y cynigion i'r aelodau am eu sylwadau.

5. Materion Ariannol

a. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2018: £8,239.54.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 11, 2018

b. Llythyr (6/8/2018) oddi wrth BDO, ein Harchwilydd Allanol. Maent angen fwy o wybodaeth ac angen ei gael cyn Awst 20, 2018 i gwblhau'r archwiliad. Y wybodaeth maent eu hangen:

1. Maent angen esboniad pam bod lleihad o £11,332 (14%) yn yr asedau sefydlog, ac ni ddarparwyd esboniad am hyn. Maent angen ddadansoddiad manwl o'r gostyngiad.

Rhodddwyd gwybod iddynt roedd ffigwr £81,111 yn Eitem 12, 2016/2017 yn anghywir. Nid yw ein hasedau wedi newid.

2. Mae angen darparu cysoniad banc gyda'r ffurflen flynyddol sy'n cytuno â'r ffigur ym mlwch 9. Mae angen i ni ddarparu copi o naill ai gysoniad banc neu ddatganiad(au) banc ar gyfer 31 Mawrth 2018 sy'n cefnogi'r ffigur ym mlwch 9. Dylai'r cysoniad gynnwys pob cyfrif banc, cymdeithas adeiladu ac arian sydd wedi'u cysoni ac unrhyw fuddsoddiadau

Rhodddwyd y wybodaeth iddynt.

3. Mae Atodiad 3 rhan b yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod argymhellion gafodd eu gwneud yn dilyn archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu / eu datrys yn 2017-18, ond nid yw'r cofnodion gafodd eu darparu yn dangos dystiolaeth o hyn. Mae angen i ni ddarparu dystiolaeth i ddangos bod yr argymhellion gafodd eu gwneud yn dilyn archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu/eu datrys yn 2017-18.

Rhodddwyd iddynt gopi o Gofnodion Gorffennaf 11, 2017 a Chofnodion Medi 12, 2017.

Anfonwyd y wybodaeth i BDO LLP ar 9/8/2018.

c. Llythyr (20/8/2018) oddi wrth BDO, ein Harchwilydd Allanol. Maent angen fwy o wybodaeth ac angen ei gael cyn Medi 3, 2018 i gwblhau'r archwiliad. Y wybodaeth maent eu hangen:

1. Yn archwiliad 2015-16 tynnwyd eu sylw at y ffaith nad oedd y cyngor yn monitro'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn ddigonol. Eleni mae gofyn i ni ddilyn i fyny ar faterion gafodd eu codi yn archwiliad 2015-16. Mae angen i ni ddarparu'r gyllideb ar gyfer 2017/18 yn ogystal â chofnodion wedi eu hardystio a'u llofnodi sy'n dangos fod y gyllideb wedi cael ei monitro yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd y wybodaeth iddynt.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 11, 2018

2. Yn archwiliad 2015-16 tynnwyd eu sylw at y ffaith nad oedd y cyngor yn gallu darparu copi o'r llythyr penodi. Eleni mae gofyn iddyl yn ddilyn i fyny ar faterion gafodd eu codi yn archwiliad 2015-16. Mae angen i ni ddarparu copi o lythyr penodi'r archwilydd mewnol ar gyfer 2017/18.

Anfonwyd copi o'r llythyr iddynt.

Anfonwyd y wybodaeth i BDO LLP ar 23/8/2018.

c. Llythyr (6/8/2018) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru. Maent yn cynnal astudiaeth genedlaethol o wasanaethau archwilio mewnol mewn cynghorau lleol er mwyn ystyried y cwestiwn 'A oes gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru system archwilio fewnol ddigonol ac effeithiol ar waith?' Cawsom yr anrhydedd i fod yn rhan o'r astudiaeth genedlaethol. Amgáu mae holiadur ac maent angen y wybodaeth cyn Awst 13, 2018.

Llythyr (16/8/2018) yn gofyn am y wybodaeth cyn gynted â phosib. Rhoddwyd y wybodaeth ar 16/8/2018.

ch. Bil (11 Awst 2018) am £126.07 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 16 Chwefror 2018 - 10 Awst 2018. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £147.71).

d. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2018: £8,090.47.

dd. Bil (7/9/2018) am £1,242.00 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed, Trawsfynydd (mae Mr Ifor Thompson mewn partneriaeth â un arall) am dorri llwybrau cyhoeddus ardal Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £1,380.00). Mae'r bil yn cynnwys TAW.

Penderfynwyd talu'r bil ac anfon y bil ymlaen i Gwasanaeth Amgylchedd, Cyngor Gwynedd am ad-daliad.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Galwad ffôn (15/8/2018) oddi wrth Mrs Sonja Benskin-Mersher, Ty'n Llan, Llanelltyd yn holi os oedd taliad wedi ei wneud ar gyfer safle'r bedd cadwyd iddi. Cadwyd y safle oherwydd y tywydd anffafriol i agor bedd dwbl ar gyfer angladd Philip Charles Benskin-Mersher, ac felly agorwyd bedd sengl. O Gofnodion 9 Ionawr, 2007 codwyd tâl bedd dwbl ar y bedd sengl ac felly dim ond ail agor fydd y gost tro nesaf, sef Claddedigaeth Bellach. Rhoddwyd gwybod i Mrs Benskin-Mersher (21/8/2018).

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Meurig Ashton i dderbyn ei syniad i dorri coed mân sy'n tyfu rhwng rhai o'r beddi.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (18/7/2018) a dogfen ymwneud ag Ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri. Cynllun rheolaeth newydd ar gyfer y Parc. Bydd yn cael ei gynnal rhwng dydd Llun 9/7/2018 a dydd Sul 30/9/2018. Y llefydd agosaf yw Canolfan y Plase, Bala (20/8/18 - 2/9/18) a Castell Harlech (17/9/18 - 30/9/18). Mae ymgynghoriad ar <http://www.eryri.llyw.cymru/cynllneryri>

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Awdurdod ein bod yn siomedig nid oedd lleoliad i'r arddangosfa deithiol yn nhe'r Parc.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (20/6/2018) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd gyda phlan yn dangos cynllun diwygio Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig yn Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylwadau ar y cynllun.

Wedi cael sylwadau'r Aelodau ar y cynllun cafwyd wybod gan Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd, ei fod wedi cael gwrthwynebiad i'r cynllun ymwneud a lle parcio nid yn unig gennym ni ond gan sefydliadau eraill. Felly maent am symud ymlaen gyda gosod llinellau melyn a thrafod y lle parcio ymhellach.

b. Llythyrau (30/7/2018 a 28/8/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd giat ar lwybr cyhoeddus wrth Cae Goronwy yn cael ei ail-osod.

c. Llythyr (10/8/2018) oddi wrth Grŵp Cynefin gydag Adroddiad Blynyddol 2017/2018.

ch. Llythyr (17/8/2017) oddi wrth Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionnydd ynglŷn ag Ymgynghoriad Cyhoeddus - Hedfan Isel. Mae wedi cael nifer o gwynion gan etholwyr am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel yn yr ardal (dydd a nos) ac oherwydd hyn mae yn cynnal ymgynghoriad i ganfod y broblem, ac yna adrodd ei chanlyniadau i'r Llywodraeth yn San Steffan ac i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD). Mae angen gwybod: yr effaith ar drigolion yr ardal, yr effaith ar economi'r ardal, ac unrhyw sylwadau arall. Mae croeso i'r cynghorwyr neu y Cyngor neu aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig iddi. Cyfeiriad: Angorfa, Heol Meurig, Dolgellau, LL40 1LN liz.savillroberts.mp@parliament, ffon: 01341 421 116. Angen ateb cyn dydd Gwener Medi 28, 2018. Amgáu mae llythyr oddi wrth Ministry of Defence.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Roedd llinellau melyn ar y lle parcio'r ysgol wedi eu rhoi am ddiogelwch. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi sylw ymhellach i'r mater.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Peredur Jenkins ein bod yn siomedig gyda Cyngor Gwynedd ni chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynllun llinellau melyn ar gyfer lle parcio'r ysgol. Rydym hefyd yn siomedig nid yw llinellau melyn wedi eu rhoi wrth y gyffordd i'r neuadd.

10. Materion Brys

a. Cafwyd wybod gan Carwyn Evans bod cyflwr Toiledau Bontddu ddim yn dderbyniol. Mae angen i'r adeilad cael ei glanhau trwyddi yn enwedig rhan y Merched. Nid oes peiriant i olchi dwylo ac nid yw drws rhan y Merched yn cloi. Daeth les yr adeilad gyda Cyngor Gwynedd ar ben mis diwethaf a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor blwyddyn ddiwethaf am hyn.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Janet Edwards ein bod yn cau y Toiledau o Hydref 1 hyd at ddechrau'r gwanwyn.

b. Mae Meurig Ashton wedi torri y gordyfiant oedd yn tyfu ar adeilad gorsaf bws yn Taicynhaeaf.

c. Mae Mrs Marian Owen (Llanelltyd gynt) yn cynnig rhoi mainc er cof am ei diweddar wr Mr Edward Owen.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddi ein bod yn ymchwilio'r mater i gael lle derbyniol i'r fainc.
